

Kirsty Williams AC  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

15 Chwefror 2018

Annwyl Kirsty,

### **Ymchwiliad i Gyllid wedi'i Dargedu i Wella Canlyniadau Addysgol**

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i gyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol. Diolch am gytuno i ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 22 Mawrth i roi tystiolaeth lafar ar y mater hwn.

I helpu i lywio'r ymchwiliad, mae'r Pwyllgor wedi cynnal ymgynghoriad ac mae'r ymatebion iddo bellach wedi'u cyhoeddi. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cynnal ymweliadau ag ysgolion, ac mae ein tîm allgymorth wedi cynnal nifer o gyfarfodydd grŵp ffocws â rhanddeiliaid. Cyn eich sesiwn dystiolaeth, teimlaf y gallai fod o gymorth amlinellu rhai o'r pryderon sydd wedi dod i'r amlwg. Un o'r meysydd allweddol fu'r datblygiadau o ran data cyrhaeddiad yn 2017 yr ydym yn awyddus i'w trafod mewn rhagor o fanylder.

Yn ogystal â'r meysydd a amlinellwyd yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad, byddai gennym ddiddordeb mewn cael gwybodaeth benodol gennych am y meysydd a amlinellir isod cyn 22 Mawrth:

### **Data cyrhaeddiad a mesurau perfformiad**

- Asesiad byr o'r prif dueddiadau yn y data ar gyfer 2017 am gyrhaeddiad yn ystod Cyfnod Allweddol 4. Pa gasgliadau sydd wedi dod i'r amlwg o'r hyn y mae'r canlyniadau ar gyfer 2017 yn ei ddangos o ran i ba raddau y mae safonau ysgolion a chanlyniadau disgyblion yn gwella – gan gynnwys ymysg dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r amcan o gau'r bwlch cyrhaeddiad? (Wrth inni graffu ar y gyllideb, gwnaethoch gyfeirio at ddadansoddiad ystadegol yr oedd swyddogion yn ei wneud, gan nodi mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor y byddech



yn rhannu'r dadansoddiad hwn pan fyddai ar gael. A yw'r wybodaeth hon bellach ar gael?)

- Sut mae'r newidiadau mewn mesurau perfformiad wedi effeithio ar y gallu i gymharu data cyrhaeddiad yn 2017? Er enghraifft, nid yw mesurau trothwy Lefel 2 a throthwy cynhwysol Lefel 2 yn cael eu cymharu'n uniongyrchol mwyach gan fod cap ar y graddau y gellir ystyried cymwysterau galwedigaethol. Sut mae hyn wedi effeithio ar batrymau mynediad? A yw lefelau mynediad at gymwysterau galwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi gostwng, gyda'r newidiadau mewn mesurau perfformiad yn annog ysgolion i beidio ag argymell y cyrsiau hyn i ddisgyblion? A yw hyn wedi digwydd i raddau helaethach ymhlith dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ac a ellir ei briodoli i'r gostyngiadau mwy yn 2017 yn y cyfraddau cyrhaeddiad trothwy Lefel 2 a throthwy cynhwysol Lefel 2 ymhlith dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim nag ymhlith disgyblion nad ydynt yn gymwys?
- Beth yw'r prif fesurau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio yn y dyfodol i asesu a yw cyrhaeddiad dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn gwella ac a yw'r bwlch rhwng y disgyblion hyn a disgyblion eraill yn cau?
- Beth yw'r prif fesurau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio yn y dyfodol i asesu a yw'r ysgolion Llwybrau Llwyddiant wedi gwella cyrhaeddiad eu disgyblion yn dilyn eu cyfranogiad yn rhaglen Her Ysgolion Cymru?

### Cyllid Her Ysgolion Cymru

- Manylion am yr arian a dderbyniodd pob un o'r ysgolion Llwybrau Llwyddiant yn ystod pob blwyddyn o raglen Her Ysgolion Cymru. (Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddyraniadau ar gyfer blwyddyn gyntaf y rhaglen yn 2014/15 mewn [Datganiad Cabinet ar 14 Gorffennaf 2015](#) ond nid ydym yn ymwybodol bod gwybodaeth am y dyraniadau ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol ar gael yn gyhoeddus.)
- Manylion am sut y cafodd y £1.5 miliwn a ddyrannwyd yn 2017-18 ei wario i ddarparu cefnogaeth wedi'i dargedu ar gyfer ysgolion ac i adeiladu ar wersi a ddysgwyd o raglen Her Ysgolion Cymru, a drafodwyd mewn [llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dyddiedig 22 Mehefin 2017](#).
- Gwybodaeth am strategaethau ymadael ar gyfer ysgolion Llwybrau Llwyddiant i ymdopi â cholli cyllid a chefnogaeth Her Ysgolion Cymru.




## Rôl y consortia rhanbarthol

- Bydd y Pwyllgor yn clywed tystiolaeth gan y consortia eu hunain ond byddai'n ddefnyddiol cael safbwynt Llywodraeth Cymru ar rôl y consortia rhanbarthol o ran y ffordd y mae ysgolion yn defnyddio dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion i wella cyrhaeddiad dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.
- Sut mae'r consortia rhanbarthol yn gwario/dosbarthu dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant wedi'u mabwysiadu?

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at glywed eich ymateb i'r materion hyn.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AC**

**Cadeirydd**

